
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Canllawiau Cerdded
Walks Guide

# 13 Taith Pen yr Allt
# Pen yr Allt Walk



## UCHAFBWYNTIAU

**O fynyddoedd i afonydd a dolydd - darganfyddwch y daith gerdded hon sy'n llawn amrywiaeth.**

O goedwig binwydd gysgodol, dolydd uwchdir, mwyngloddiau segur, llwybr pen dyfnant a darn ar hyd yr afon, i olygfeydd syfrdanol o Foel Siabod, mae gan y daith gerdded hon rywbeth at ddant pawb.

## HIGHLIGHTS


**From Mountains to rivers and meadows - discover this walk full of variety.**

From shady fir forest, upland meadows, abandoned mines, a ravine-top path and a stretch along the river, to breathtaking views of the ever dominant Moel Siabod, this walk has something to suite all tastes.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales


Cymru Wales



## Allwedd / Map Key

- Taith Pen yr Allt / Pen yr Allt Walk
- Llwybr dargyfeirio* / Diversion*
- Grisiau / Steps
- Tâl Parcio / Parking charge
- Maes picnic / Picnic area
- Mainc / Bench



**Dilynwch y symbolau cyfeirbwynt glas**
**Dechrau:** Maes parcio Pont y Pair
**Gradd:** Anodd **Amser:** 2-3 awr
**Pellter:** 4½ milltir/7.1km **Dringo:** 357m
**DISGRIFIAD:** Llwybr cylchol yw hwn sy'n dilyn cyfres o ffyrdd coedwig a llwybrau troed cul serth, rhwng 70cm ac 1m o led, sy'n arw ac anwastad dan droed, lle gallwch ddisgwyl mwd, creigiau a gwreiddiau coed. Mae nifer o risiau ar i lawr ac wrth ddringo, nifer o gamfeydd a dwy giât mochyn. Mae dwy fainc ar y llwybr sy'n rhoi cyfle ichi ddal eich anadl ar y daith gerdded hon o fynydd bychan.

**Follow the blue waymarker symbols**
**Start:** Pont y Pair car park
**Grade:** Strenuous **Time:** 2-3 hours
**Distance:** 4½ miles/7.1km **Climb:** 357m
**DESCRIPTION:** This is a circular route which follows a series of forest roads and steep narrow footpaths, 70cm to 1m wide, on an unmade and uneven surface, where you can expect mud, rocks and tree roots. There are a number of sets of steps both on ascent and descent, a number of stiles, and two kissing gates. There are two benches on the trail allowing you to get your breath back on this mini-mountain walk.

## PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE

